CIWB

**Tasg 2**

# Beth am fynd allan i …?

Rydych chi a’ch ffrindiau eisiau mynd allan brynhawn dydd Sadwrn – ond i ble? Beth ydych chi eisiau gwneud? Dewiswch …

| | | |
|---|---|---|
| gwylio ffilm yn y sinema | chwarae gêm gyfrifiadur | siopa |
| pysgota | cael pizza mewn caffi | beicio |
| rhedeg yn y parc | cael diod mewn siop goffi | nofio |

Ble ydych chi eisiau mynd?
Beth ydych chi eisiau gwneud?

1. Siaradwch am hyn ac yna trefnwch y geiriau yn y diemwnt yma – y mwya poblogaidd ar y top.

| Help | |
|---|---|
| trefnu | to arrange, to organize |
| y mwya poblogaidd | the most popular |

**Dyma ychydig o help i chi:**

| | |
|---|---|
| Ble wyt ti eisiau mynd?<br>Ble ydych chi eisiau mynd? | Dw i eisiau mynd i … achos … |
| Ble hoffet ti fynd?<br>Ble hoffech chi fynd? | Hoffwn i fynd i … achos … |
| Beth wyt ti eisiau gwneud?<br>Beth ydych chi eisiau gwneud? | Dw i eisiau … achos … |
| Beth hoffet ti wneud?<br>Beth hoffech chi wneud?<br>Cofiwch: | Hoffwn i … achos …<br><br>Hoffwn i **f**ynd i …<br>Hoffwn i **b**ysgota achos dw i'n hoffi ….<br>Hoffwn i **f**wyta … |

**Cofiwch!**

Defnyddiwch **ti**:
- gydag un person
- gyda ffrind, aelod o'r teulu neu rywun rydych chi'n adnabod yn dda
- yn anffurfiol.

Defnyddiwch **chi**:
- gyda mwy nag un person
- gyda rhywun dydych chi ddim yn adnabod yn dda
- yn ffurfiol.

aelod – member
rhywun – someone
adnabod – (to) know (a person)
yn anffurfiol – informally
yn ffurfiol – formally

2. Nawr, trefnwch i fynd.

**Dyma ychydig o help i chi:**

| | |
|---|---|
| Pryd wyt ti eisiau mynd?<br>Am faint o'r gloch?<br>Beth wyt ti'n mynd i wisgo? | Beth am ddydd Sadwrn / nos Wener?<br>Am …<br>Dw i'n mynd i wisgo … |

3. Ysgrifennwch neges destun i wahodd ffrind arall i ddod gyda chi, e.e.

Mae Sam, Matt a fi'n mynd allan brynhawn dydd Sadwrn. Rydyn ni'n mynd i … ac yna rydyn ni'n mynd i ….

Rydyn ni'n cwrdd / cyfarfod tu allan i … am …

Wyt ti eisiau dod? Mae … yn hwyl.

Alex.

| Help | |
|---|---|
| diod | a drink |
| yna | then |
| cwrdd | to meet |
| cyfarfod | to meet |